



POLISI SIARTER IAITH GYMRAEG

Ysgol Llandygai

Nôd y polisi hwn yw sicrhau bod holl ddisgyblion yr ysgol yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys oed perthnasol er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Wrth ddwyieithrwydd oed perthnasol golygir bod disgyblion yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Ein nod yw datblygu hyfedredd disgyblion yn y ddwy iaith o fewn profiadau yn eu bywyd cymdeithasol, profiadau bugeiliol ac o fewn y cwricwlwm a ddarperir ar eu cyfer.

Er mwyn gosod sylfeini cadarn o'r Gymraeg ar gyfer datblygiad pellach fe bwysir y fantol o blaid y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar. Yng Nghyfnod Allweddol 2 'rydym yn cynllunio'n fwriadus er mwyn datblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg.

Yn unol â diffiniadau o'r math o ddisgybl yn ôl eu gallu ieithyddol o fewn y Polisi Iaith (1996), 'rydym yn cydnabod fod ein disgyblion â:

'hyfedredd priodol yn y Saesneg ond sydd angen atgyfnerthu rhai agweddau ar eu sgiliau ieithyddol yn Gymraeg, (C1).'ⁱ

Rydym fel ysgol yn darparu'n ofalus ar gyfer datblygu dwyieithrwydd pob disgybl drwy gynllunio ieithyddol bwriadus.

Yn y blynyddoedd cynnar rydym yn gosod sylfaen gadarn yn y Gymraeg gan sicrhau bod digyblion o gefndir Saesneg yn cael cyfle i ddysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl.

Yn y Cyfnod Sylfaen 'rydym yn adeiladu ar y sylfaen ag osodwyd yn y dosbarth Meithrin a Derbyn drwy barhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg a chychwyn ar y broses o ddatblygu eu sgiliau yn y Saesneg.

Yng Nghyfnod Allweddol 2 'rydym yn parhau i ddatblygu gafael y disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith. Asesir cynydd disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg ar ddiwedd y cyfnod allweddol.

'Rydym yn sicrhau bod disgyblion sy'n ddysgwyr y Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 2 yn dysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl drwy roi cyfle iddynt fynychu Canolfan Iaith, er mwyn iddynt allu dilyn y Cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg / ddwyieithog.

'Rydym fel ysgol yn sicrhau datblygiad yng ngwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru drwy gyfrwng y cwricwlwm Cymreig. 'Rydym yn datblygu ein disgyblion i fod yn ddinasyddion cyfrifol fel eu bod yn cyfrannu'n arwyddocaol i'r gymdeithas ddwyieithog maent yn rhan ohoni.

Mae Ysgol Llandygai yn gweithredu saith nôd Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd trwy gyfrwng y canlynol:

1. Gosod sylfaen gadarn i'r Gymraeg yn y cyfnod sylfaen.
2. Sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni eu potensial yn y Gymraeg fel pwnc ac fel cyfrwng addysgol.
3. Gweithredu'r cwricwlwm Cymrieg.
4. Meithrin ymwybyddiaeth o hunaniaeth ddiwylliannol a threftadaeth Cymru ymysg disgyblion yr ysgol.
5. Sicrhau bod pob agwedd o fywyd pob dydd yr ysgol a'i chymuned yn Gymraeg a Chymrieg.
6. Hyrwyddo'r defnydd o Gymraeg mewn gweithgareddau allgyrsiol.
7. Cefngoi staff i ddatblygu eu hyder a'u sgiliau yn y Gymraeg yn y gweithle.

Mabwysiadwyd: Gwanwyn 2012

Cadeirydd: Dr Einir Young

Pennaeth: C Hughes

Adolygwyd: Haf 2013; Gwanwyn 2014

Cadeirydd: Parch J Matthews

Pennaeth: C Hughes

Adolygwyd: Gwanwyn 2016

Cadeirydd: Parch J Matthews

Pennaeth: Mr Elfed Morgan Morris
